COFNODION Y CYNGOR: Busnes Agored
12.30 y.p., ddydd Llun 24 Ionawr 2022
Cynhaliwyd mewn sawl lleoliad, trwy gyfrwng meddalwedd Zoom

Busnes Agored y Cyngor – cofnodion 1 – 14.

1. Presenoldeb ac Ymddiheuriadau

Presennol: John Graystone (Cadeirydd), Gareth Cork, Caroline Davies, Salamatu Fada, Jenni Jones-Annetts, Stephen Nicholls, Chris Franks, Judith Evans, Cathy Clark, Jan Tiley, Siôn Aled Owen; Dona Lewis and Victory Ezeofor (y ddau hyd at ddiwedd cofnod 10), Sonia Reynolds (Is-gadeirydd – ac eithrio cofnodion 5-9), a Marion Burke (hyd at ddiwedd cofnod 4). Roedd cworwm trwy gydol y cyfarfod.
Hefyd yn Bresennol: Kathryn Robson (Prif Weithredwr), Mark Baines (Pennaeth Cwricwlwm a Pherfformiad), Cath Hicks (Pennaeth Gwasanaethau Dysgwyr ac Adnoddau - ac eithrio cofnodion 12-14), Stephen Thomas (Ysgrifennydd y Cwmni/Clerc); Steffan Wiliam (cyfieithydd – gwasanaeth cyfieithu ar y pryd). Hefyd Duncan Holtom (People and Work/Pobl a Gwaith – cofnodion 1 a 2 yn unig).
Ymddiheuriadau: Tim Palazon, Toni Schiavone (Is-gadeirydd).
Absennol: Steve David, Carl Hoskins.

2. Cyflwyniad ar adroddiad ymchwil Dysgu Oedolion yn y Gymuned, a gomisiynwyd gan AOC|ALW

Defnyddiodd Dr Duncan Holtom o *Pobl a Gwaith* gyflwyniad PowerPoint i grynhoi canlyniadau ymchwil ei gwmni ar ehangu cyfranogiad ym maes dysgu oedolion yn y gymuned. Ychwanegwyd at ymchwil eang o gyhoeddiadau, o'r sector ei hun ac o adolygiadau diweddar Estyn, gan gyfweliadau trylwyr gyda nifer o ddysgwyr er mwyn creu'r adroddiad.

Trafododd sut y daeth heriau a chyfleoedd yn sgil Covid-19, ac am sectorau o'r boblogaeth nad oedd addysg oedolion yn eu cyrraedd cystal ar y cyfan. Roedd AOC|ALW yn gallu gwrthsefyll tueddiadau o ran graddiant oedran mewn cyfranogiad (roedd ganddo broffil oedran hŷn na'r arfer ymhlith ei ddysgwyr) ac o ran cyrraedd grwpiau economaidd-gymdeithasol is. Roedd yn llai llwyddiannus wrth dorri trwodd ar lefelau addysgol blaenorol dysgwyr, ac eu statws mewn gwaith, h.y. yr oedd cyflawniad addysgol blaenorol uwch a chyflogaeth bresennol ill dau yn parhau i fod yn ddangosyddion cryf o gyfranogiad yn ei gyrsiau. O ran pobl yn dewis dysgu a beth allai eu hatal rhag gwneud hynny, roedd cymhelliant, cyfle a gallu yn ffactorau allweddol a oedd yn effeithio ar sut a pham i ymgymryd ag addysg oedolion. Newidiodd y ffactorau hynny dros amser, ac roeddent yn bwysicach o ran egluro'r nifer oedd yn manteisio ar addysg oedolion na'r naratif 'goresgyn rhwystrau' a glywir mor aml. Ni ddylai dadansoddiad cyffredinol danbrisio cymhellion eraill ar gyfer cymryd rhan ychwaith - roedd hwyl, mwynhad, rhyddhad, integreiddio cymdeithasol, cynhwysiant, dinasyddiaeth, iechyd a lles, ac ymdeimlad o gyflawniad oll yn bwysig. Dylid cydnabod hefyd nad oedd dysgu oedolion yn gwbl ddi-risg serch hynny, a bod rhai yn dal i 'fethu', er gwaethaf eu hymdrechion.

Roedd data'n dangos sut roedd y fantais a'r effaith gronnol ar eu mwyaf pan fanteisiai pobl ar gyfleoedd addysg oedolion o oedran iau. Roedd buddion cyfranogiad yn amrywio yn ôl yr unigolyn, ond yn

gyffredinol, roedd y rhai oedd â'r mwyaf i'w hennill yn y grwpiau oedran iau. Targedu carfannau'r rhai ar incwm is, lleiaf addysgedig a gyda llai o gymwysterau, oedd yn cynrychioli'r effaith bosibl fwyaf gan fod eu datblygiadau yn gymesur fwy. O ran enillion mewn gweithgarwch dinasyddiaeth, efallai y byddai pobl hŷn a oedd â mwy o amser i wirfoddoli yn rhoi mwy yn ôl. Ac roedd yn rhaid derbyn bod ymddygiad unigol yn golygu mai pur anaml yr oedd yna linell syth, achos ac effaith dan sylw - nid oedd yn broses ddi-ildio. Er mwyn amlhau'r tebygolrwydd o lwyddiant, byddai'n well pe bai cysylltiadau ychwanegol yn cael eu darparu at lwybrau i addysg uwch, amserlenni gwaith a chymorth, at weithgareddau cymunedol, neu at bresgripsiynu cymdeithasol.

Mewn trafodaeth, roedd rhai o aelodau'r Cyngor yn cael yr argraff nad oedd fawr ddim wedi newid ym maes addysg oedolion dros y ddegawd ddiwethaf yn ôl y casgliadau hyn: roedd pobl ddi-waith, tan-gyflogedig a phobl ar gyflog isel yn dal i fod yn darged pwysig. Roedd y disgrifiadau o'r grwpiau a ddysgai'n amlaf yn union yr un fath â'r rhai yr oedd Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol yn eu hystyried yn ddysgwyr ar gyrsiau Cymraeg. Er efallai nad oedd fawr ddim i beri syndod yn y canfyddiadau, pwysleisiodd Duncan Holtom y neges allweddol mai rhoi sylw i ennyn cymhelliant pobl fel unigolion oedd yn hanfodol, yn fwy felly na'r angen i roi sylw i'r rhwystrau oedd yn llyffetheirio pobl. Roedd ehangu darpariaeth ar-lein o ganlyniad i Covid-19 yn ddamcaniaethol dda yn hynny o beth. Cafwyd trafodaeth am fanteision dwy-/amlieithrwydd a'r defnydd o ieithoedd eraill fel cyfryngau addysgol; am fodolaeth llwybrau addysgol ar ôl astudio gyda AOC|ALW - roedd Sgiliau Hanfodol mewn Mathemateg a Saesneg fel cyfrwng bwydo i brifysgolion, yn enwedig Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, ynghyd â chwnsela, gwaith ieuenctid, gwaith chwarae, a chymwysterau addysgu a dysgu, oll yn gyrsiau lefel uwch a gynigid gan AOC|ALW; a'r posibilrwydd o gynnig cymorth ymarferol i grwpiau oedd yn bodoli eisoes mewn cymunedau, yn hytrach na dysgu yn unig – safbwynt 'Freiraidd', yn pwysleisio sgiliau meddwl yn feirniadol ac adeiladu ar ddiddordeb oedd eisoes wedi dod i'r amlwg.

Diolchodd Kathryn Robson i'r rhai a oedd wedi cynorthwyo â'r prosiect hwn, yn *Pobl a Gwaith* ac yn AOC|ALW. Credai bod yn rhaid cydnabod bod yn well gan rai dysgwyr beidio â chael cymwysterau/ dilyniant, ac roedd hynny felly'n cydnabod bod yna densiwn penodol yn bodoli rhwng gwerthoedd traddodiadol y Sefydliad a gofynion Llywodraeth Cymru. Roedd yr adroddiad wedi cyrraedd ar adeg dda: roedd yn dangos bod AOC|ALW yn canolbwyntio ar ymchwil pan oedd adroddiad hefyd wedi'i gyhoeddi gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (WCPP) ym Mhrifysgol Caerdydd ynghylch dysgu gydol oes - roedd yn bwysig bod y ddau yn cyfrannu at ei gilydd. Byddai lansiad cyhoeddus ein hadroddiad ymchwil, gweithgarwch cyfryngau cymdeithasol yn ei gylch, a thargedu Gweinidogion a Jayne Bryant AS, Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn y Senedd ynghylch yr adroddiad. Cafwyd gwahoddiad i baratoi papur yn ei gylch ar gyfer WISERD (canolfan ymchwil y gwyddorau cymdeithasol) ym mis Gorffennaf 2022, a gyflwynwyd trwy Tim Palazon. **Byddai'r sleidiau a ddarparwyd gan Duncan Holtom a'r adroddiad llawn yn cael eu hanfon at aelodau'r Cyngor yn ystod yr wythnosau canlynol**.

3. Cofnodion Busnes Agored yng nghyfarfod y Cyngor ar 23 Tachwedd 2021 a materion yn codi

Croesawyd Marion Burke yn ôl ar ôl ei chyfnod i ffwrdd. Cafodd cofnodion Busnes Agored cyfarfod blaenorol y Cyngor, a gynhaliwyd trwy gyfrwng Zoom, eu cymeradwyo fel cofnod cywir. Cafwyd diweddariad ynghylch cofnod 3: roedd AOC|ALW wedi llwyddo i gael arian ychwanegol ar gyfer estyniad i'r prosiect AMIF (Cronfa Lloches, Ymfudo ac Integreiddio), er mwyn cynnwys yn y prosiect gwladolion Affganistan oedd yn adleoli i Gymru.

4. Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru): gweithrediad y Senedd

Darparodd Kathryn Robson y wybodaeth ddiweddaraf am weithrediad Llywodraeth Cymru o ddiwygiadau PCET (addysg a hyfforddiant ôl-orfodol) yn gysylltiedig â diddymu Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

Roedd Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) ar yr ail o'i bedwar cam i ddod yn gyfraith, ac roedd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd yn rhoi ystyriaeth fanwl iddo. Ym mis Rhagfyr 2021 bu cyflwyniad llafar AOC|ALW i'r Pwyllgor hwnnw gan ein Cadeirydd a Phrif Weithredwr, ac yna cyflwyniad ysgrifenedig. Fodd bynnag, roedd datganiadau cyhoeddus gan y Gweinidog dros yr wythnosau diwethaf wedi codi ofnau y gallai byrdwn ein dadleuon am yr angen i gynnal darpariaeth deg ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned i bobl dros 19 oed gael ei golli, a bod ymrwymiad llai clir nag yn flaenorol i greu corff cydgysylltu cenedlaethol i oruchwylio dysgu oedolion yn y gymuned.

Darparwyd trosolwg o ymgynghoriadau a dogfennaeth yn y maes hwn ers y camau cychwynnol a wnaed gan Lywodraeth Cymru yn 2016: **byddai cyflwyniad sleidiau ynghylch hyn yn cael ei anfon at yr aelodau ar ôl y cyfarfod**. Ar wahanol adegau dros y 5+ mlynedd diwethaf bu ymrwymiadau gan (gyn) Weinidogion Addysg ar ddysgu gydol oes a chreu corff cenedlaethol: yn wir, roedd is-bennawd AOC|ALW wedi'i newid i adlewyrchu'r positifrwydd a oedd fel pe bai'n deillio o'r cyfeiriad hwnnw. Ac eto, nid oedd y Bil yn sôn am greu corff cenedlaethol, ac yn hytrach, roedd yn adlewyrchu parhad posibl natur dameidiog y sector ar hyn o bryd, â thua 10 o Bartneriaethau Dysgu Oedolion yn y Gymuned oll yn cael eu harolygu'n unigol gan Estyn, gyda'u cynlluniau ansawdd ar wahân ac ati. Yr oedd grŵp cyfeirio rhanddeiliaid newydd wedi'i sefydlu yr oeddem i fod yn rhan ohono, ac yr oeddem i fod yn rhan o seminar ar y mater hefyd: ond yr oedd pryder na fyddai awydd dychwelyd at fater y corff cenedlaethol. Mewn ymateb i gwestiwn diweddar gan Aelod o'r Senedd, dim ond 'cydgysylltu' yn y maes hwnnw yr oedd Jeremy Miles (Gweinidog dros Addysg) wedi'i grybwyll, yn hytrach na chorff cydgysylltu fel y cyfryw. Fel ymateb i hynny, bu cyfarfodydd dros y dyddiau blaenorol rhwng AOC|ALW ac uwch weision sifil lle mynegwyd ein pryderon, a byddai cyfarfod yn cael ei gynnal gyda'r Gweinidog y diwrnod canlynol lle byddai'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn mynd i'r afael â'r cwestiynau hyn gydag ef.

Mewn trafodaeth, codwyd y posibilrwydd o ysgogi ein haelodau i ymateb i'r sefyllfa, fel y digwyddodd yn 2018. Roedd hynny wedi cael ei ddiystyru braidd gan Lywodraeth Cymru ar yr achlysur hwnnw, gan ei bod wedi categoreiddio ymatebion niferus ein haelodau unigol fel un ateb yn unig. Roedd yn wir i ddweud bod modelau ailstrwythuro eraill yn cael eu cefnogi gan ddarparwyr eraill/partneriaethau ACL, gan gynnwys y rhai a oedd yn ceisio cynnal gweithgarwch awdurdodau lleol; ac roedd rhai eiriolwyr yn ystyried fod AOC|ALW yn fygythiad. Bu rhai datblygiadau cadarnhaol i'n cyfeiriad yn ddiweddar, megis cael ein penodi'n gydlynwyr y Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol ar gyfer dysgwyr oedd yn oedolion, a chefnogaeth Estyn i'n safbwynt. Roedd hon i'w gweld yn sefyllfa debyg i'r un a gafwyd ychydig flynyddoedd ynghynt ym maes Cymraeg i Oedolion, a wnaeth arwain at Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol yn ysgwyddo rôl gydlynol - â llwyddiannau cydnabyddedig.

5. Adroddiad Cwricwlwm, Ionawr 2022

Soniodd Mark Baines ei bod yn bleser gweld mwy o addysgu wyneb yn wyneb yn dychwelyd yn Nhymor 2 hyd yn hyn: byddai mwy o fanylion am hynny'n cael eu hadrodd i gyfarfod nesaf Pwyllgor Profiad y Dysgwyr. Disgwylid y ffigurau eithaf isel a gofnodwyd hyd yn hyn ar gyfer Cyflawni Cenedlaethol a'i is-haenau yn y tablau trosolwg addysgol, oherwydd roedd llawer o'i waith yn ymwneud â gweithgarwch Tymor 3. Roedd dosbarthiadau llai, costau uwch a thrafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ar y posibilrwydd o anelu at dargedau cyflawni is ar gyfer y flwyddyn yn parhau i fod yn themâu o bwys.

6. Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA/KPI) yr Uwch Dîm Rheoli: dogfennau ar gyfer 2021 a 2022

Dywedodd y Cadeirydd bod y ffaith bod rhai o ddangosyddion 2021 yn goch (heb eu cyflawni) yn fater cadarnhaol, oherwydd roedd hynny'n dangos eu bod yn fesurau effeithiol o scriwtineiddio ac yn ymestyn galluoedd y Sefydliad. Roedd 4 ohonynt, ynghylch: Dosbarthiadau cyfrwng Cymraeg, DPP i diwtoriaid,

targedau arsylwi gwersi, a strategaeth cynnwys dysgwyr. Roedd targedau pob un wedi'u haddasu ar gyfer 2022.

Roedd ehangu dosbarthiadau cyfrwng Cymraeg wedi bod yn ystyfnig o wrthwynebol i welliant dros rai blynyddoedd. Ym marn Chris Franks, roedd y gyfran isel o ddosbarthiadau o'r fath o bosibl yn gwrthbrofi ein honiad ein bod yn gorff gwirioneddol genedlaethol, ac yn syml, nid oedd hynny'n ddigon da. Cydnabuwyd ei bod yn siomedig nad oedd y targed wedi'i gyflawni unwaith eto ym mlwyddyn galendr 2021 (1.3%, o gymharu â'r targed o 2%). O ran eraill yn y sector addysg bellach, roedd AOC|ALW mewn gwirionedd yn drydydd uchaf o ran cyfran y dosbarthiadau roedd yn eu cynnal yn Gymraeg. O blith cyllid o £3.9 miliwn a oedd wedi'i glustnodi'n arbennig gan Lywodraeth Cymru, rhoddid y rhan fwyaf o'r arian hwnnw i'r ddau goleg AB â'r allbynnau cymesur uchaf, a dim ond £30,000 y flwyddyn a gawsai AOC|ALW. Bu enghreifftiau o arfer da, megis y cysylltiad â Merched y Wawr: roedd rhai o aelodau'r Cyngor yn teimlo mai partneriaethau fel hynny oedd y ffordd ymlaen, o ystyried bod addysg bellach wedi profi'n gyson i fod yn sector heriol o ran datblygiadau ym maes addysg Gymraeg. Gallai partneriaethau o'r fath fod o gymorth i ganfod tiwtoriaid, a oedd eisoes yn weithgar gyda chyrff eraill, a oedd â'r hyder i addysgu trwy gyfrwng iaith wahanol/ail iaith. Awgrymwyd cyd-gynhyrchu gyda dysgwyr fel ffordd bosibl arall ymlaen.

Bu trafodaeth hefyd am farchnata'r Sefydliad, yn cynnwys cyfryngau cymdeithasol a deunydd printiedig, oherwydd nid oedd Victory Ezeofor wedi gweld unrhyw gynnyrch o'r fath ei hun. Gobeithid y byddai'r gwaith ymgynghori presennol oedd yn ystyried materion marchnata ac aelodaeth yn darparu mentrau newydd ynghylch hyn: byddai'r casgliadau yn cael eu cyflwyno i gyfarfod mis Mawrth y Cyngor. Derbyniwyd yr adroddiad ynghylch DPA 2021.

O ran adroddiad 2022, holodd y Cadeirydd tybed a oedd gormod o ddangosyddion - cyfanswm o 33. Yn benodol o safbwynt yr un oedd yn ymwneud â darpariaeth cyfrwng Cymraeg (yn adran 1.1), cytunwyd y dylid ei aralleirio i fod yn fwy penodol ac ystyrlon. Roedd y dangosydd DPP tiwtoriaid (adran 1.2) wedi'i newid i'w wneud yn fwy realistig o ran ei hyblygrwydd. O ran gweithgareddau canghennau (adran 3.4), nodwyd nad oedd unrhyw ganghennau yng ngogledd Cymru o hyd, a thrafodwyd yr hanes a oedd wrth wraidd y ffaith honno. **Gyda newid cymeradwy i eiriad y dangosydd addysg cyfrwng Cymraeg, cymeradwywyd y DPA ar gyfer blwyddyn galendr 2022**.

7. Cofrestr Risgiau ar gyfer Ionawr 2022

Roedd hwn wedi'i ddiwygio ychydig yn dilyn sylwadau gan y Pwyllgor Archwilio ym mis Rhagfyr 2021. Roedd yr archwilwyr mewnol ac allanol wedi canmol y prosesau rheoli risg oedd ar waith yn y Sefydliad yn y cyfarfod hwnnw o'r Pwyllgor.

8. Drafft terfynol o'r Adroddiad a Datganiadau Ariannol am y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2021

Nododd y Cyngor fod gwarged wedi'i gyflawni yn ein gweithgaredd elusennol yn y flwyddyn, ond wedi'i droi'n ddiffyg - er yn llawer is na'r flwyddyn flaenorol - gan gyfrifiadau FRS 102 yn ymwneud â phensiynau nad oedd gan AOC|ALW unrhyw ddylanwad arnynt. Yn y tabl ar dudalen 6, nodwyd y gyfradd llwyddiant braidd yn isel (51%) ym maes pwnc Addysg a Hyfforddiant. **Cymeradwyodd y Cyngor y ddogfen a'i hanfon ymlaen i'w chadarnhau yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol mis Ebrill**.

9. Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Adnoddau a gynhaliwyd ar 9 Rhagfyr 2021

Crybwyllodd Steve Nicholls y byddai maint a natur buddsoddiadau arian parod y Sefydliad yn cael eu hadolygu yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Mawrth. Cyfeiriodd hefyd at *impasse* ymddangosiadol ar

gydweithio gyda'r Brifysgol Agored yng Nghymru dros waddol Tudor Bowen Jones. Byddai cynnig newydd ar hynny'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor, er bod prinder staff yn golygu efallai na fyddai'n cael y flaenoriaeth ar gyfer gweithredu a fyddai fel arfer yn digwydd. Roedd cronfa les fewnol ar gyfer ceiswyr lloches wedi dechrau gweithredu, ac roedd cynllun peilot ynghylch diwygio cymorth iddynt yn mynd i gael ei dreialu gan Lywodraeth Cymru yn 2023 fel rhan o'i chynllun 'Cenedl Noddfa'. Nododd y Cyngor y cofnodion.

10. Cyfrifon Rheoli ar gyfer 1 Awst -30 Tachwedd 2021

Cyflwynwyd y ffigurau fel yr oeddent bedwar mis ar ôl cychwyn y flwyddyn ariannol, a thanlinellodd Mark Baines costau cyflwyno ychwanegol a oedd yn cael eu cofnodi oherwydd roedd maint dosbarthiadau yn llai ar gyfartaledd (wyneb yn wyneb, hybrid neu rithwir). Roedd hynny'n heriol, o ystyried costau cyflogi tiwtoriaid/llogi ystafelloedd a'r angen i sicrhau cydbwysedd rhwng fforddiadwyedd ac ateb y galw. Dywedodd wrth y Cyngor fod dyfarniad cyflog Costau Byw o 1.75% wedi'i gwblhau'n genedlaethol ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22 (wedi'i ôl-ddyddio i 1 Awst 2021). O hynny, roedd 1% eisoes wedi'i gynnwys o fewn y gyllideb am y flwyddyn ac roedd y 0.75% arall i'w dalu gan Lywodraeth Cymru.

11. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2021

Nododd y Cyngor y cofnodion. Cyfaddefodd Chris Franks ei fod wedi bod yn gyfarfod gweddol dawel, a dehonglai hynny fel arwydd da o ran tawelwch meddwl i aelodau eraill y Cyngor. Diolchodd i Caroline Davies am wirfoddoli i fod yn aelod newydd o'r Pwyllgor, a chyfeiriodd at natur gadarnhaol y canlynol: canlyniadau'r archwiliad allanol (gan gynnwys sylwadau'n ymwneud â gwaddol Tudor Bowen Jones); y cyfarfod preifat *in camera* gyda'r archwilydd allanol; a'r canlyniad ariannol am y flwyddyn - ac eithrio'r mater heb ei ddatrys o adfachu posibl gan Lywodraeth Cymru. **Byddai adroddiad blynyddol Cadeirydd y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru yn cael ei anfon at holl aelodau'r Cyngor**.

12. Holiadur Adolygu Llywodraethu a'r trafodaethau dilynol

Roedd 15 aelod o'r Cyngor (o blith uchafswm o 19) wedi ateb yr holiadur dienw yn y pen draw: **byddai'r Clerc yn anfon ei gasgliadau cryno at yr holl aelodau**. Byddai ail gam yr ymarfer asesu, oedd yn cynnwys trafodaethau 1-i-1 rhwng un o dri swyddog y Cyngor ac aelodau eraill, yn cael ei gynnal dros y ffôn neu drwy alwadau fideo yn ystod yr wythnosau dilynol. Byddent yn cynnwys nifer benodol o themâu i ehangu arnynt, a byddent hefyd yn **arwain at gasgliadau dienw a fyddai'n cael eu rhannu**.

13. Hunan-arfarniad o drafodion y cyfarfod gan aelodau'r Cyngor a chynlluniau ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol

Roedd angen sicrwydd o ran y posibilrwydd o gyfarfodydd 'cymysg' (hybrid) o'r Cyngor (a groesawid yn gyffredinol ond yn fwy brwdfrydig gan rai nag eraill) y byddai mecanweithiau cyfieithu ar y pryd yn parhau i weithio'n effeithiol. Roedd yr opsiwn Trawsgrifio Byw (Sgrindeitlo Caeëdig) braidd yn annisgwyl, a oedd wedi bod ar gael yn y cyfarfod hwn am y tro cyntaf, wedi bod yn ddefnyddiol ar adegau i rai pan oedd y sain yn aneglur er, yn amlwg, nid oedd yn ddefnyddiol pan oedd y Gymraeg yn iaith wreiddiol. Nid oedd gan yr aelodau unrhyw wrthwynebiad i'w barhad fel opsiwn ar Zoom.

14. Gweddill dyddiadau cyfarfodydd y Cyngor a chyfarfodydd cyhoeddus ar gyfer 2021-22

- Dydd Llun 14 Chwefror (cynhadledd goffa Hywel Francis)
- Dydd Iau 17 Mawrth 2022
- Dydd Gwener 8 Ebrill 2022 (CCB a digwyddiad ar gyfer Aelodau)
- Dydd Mawrth 10 Mai 2022
- Dydd Llun 4 Gorffennaf 2022

PWYNTIAU GWEITHREDU

Cyfeiriad	Enw'r cofnod	Cam gweithredu a gytunwyd	Pwy ddylai weithredu	Erbyn pryd ddylid gweithredu
Cofnod 2	Cyflwyniad ar adroddiad ymchwil Dysgu Oedolion yn y Gymuned, y gwnaeth AOC|ALW gomisiynu *People and Work* i'w lunio	Byddai'r sleidiau a ddarparwyd gan Duncan Holtom a'r adroddiad llawn yn cael eu hanfon at aelodau'r Cyngor yn ystod yr wythnosau canlynol.	ST	Chwefror 2022
Cofnod 4	Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil, gweithrediad y Senedd	Byddai'r cyflwyniad sleidiau ynghylch y mater hwn yn cael ei anfon at aelodau wedi'r cyfarfod.	ST	Chwefror 2022
Cofnod 6	Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) yr Uwch Dîm Rheoli	Gyda newid cymeradwy i eiriad y dangosydd ynghylch addysg cyfrwng Cymraeg, cymeradwywyd y DPA ar gyfer blwyddyn galendr 2022.	KR / MB	Chwefror 2022
Cofnod 8	Drafft terfynol o'r Adroddiad a Datganiadau Ariannol am y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2021	Cymeradwyodd y Cyngor y ddogfen a'i hanfon ymlaen i'w chadarnhau yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol mis Ebrill.	ST	Ebrill 2022
Cofnod 11	Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2021	Byddai adroddiad blynyddol Cadeirydd y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru yn cael ei anfon at holl aelodau'r Cyngor.	ST	Chwefror 2022
Cofnod 12	Holiadur Adolygu Llywodraethu a'r trafodaethau dilynol	Byddai'r Clerc yn anfon crynodeb o ganfyddiadau'r holiadur at yr holl aelodau a byddai casgliadau'r trafodaethau yn cael eu hanfon atynt hefyd ar ôl eu cwblhau.	ST / John Graystone / Sonia Reynolds / Toni Schiavone	Mawrth 2022